English version below

Mae Côr Caerdydd, ar fin cynnal perfformiad hanesyddol yn y Fatican ym mis Ebrill trwy ganu repertoire o ganeuon – a gyfansoddwyd yn bennaf gan gyfansoddwyr o Gymru.

Yn yr hyn a ystyrir y cyntaf o'i fath, bydd y côr yn dod â blas gwirioneddol o Gymru i'r Eidal trwy berfformio caneuon gan bedwar o gyfansoddwyr gorau Cymru yng nghrombil yr eglwys Gatholig.

Yn dilyn eu perfformiadau nodedig yng Ngŵyl Carwyn James yn Rovigo (gogledd yr Eidal) a gwasanaeth yn Basilica San Antonio yn Padua ym mis Tachwedd 2024, mae'r côr wedi derbyn yr anrhydedd prin o gael eu gwahodd i ganu yn ystod yr Offeren ym Basilica San Pedr yn Ninas y Fatican.

Roedd angen cymeradwyaeth gan y Fatican i arddangos treftadaeth gorawl gyfoes Cymru o fewn muriau'r ddinas. Braint o'r mwyaf felly fydd cael canu repertoire gan gyfansoddwyr Cymreig, sef Syr Karl Jenkins, Paul Mealor, Robat Arwyn, a chomisiwn newydd sbon o Agnus Dei gan Geraint Owen, sydd erioed wedi cael ei berfformio o'r blaen. Bydd y perfformiad hefyd yn cynnwys darnau clasurol o Offeren yn G gan Schubert ac o Gloria gan Vivaldi.

Dan arweinyddiaeth Gwawr Owen, mae'r côr wedi bod yn brysur yn ymarfer ar gyfer y digwyddiad mawreddog ers dechrau'r flwyddyn. Wrth wneud sylwadau ar y daith, dywedodd Gwawr:

"Pan gawsom y gwahoddiad, roedd yn hynod bwysig i ni ddod â 'Gwlad y Gân' i'r Fatican. Mae cael ein cyfansoddwyr cyfoes Cymreig ein hunain wedi'u cymeradwyo ar gyfer gwasanaeth mor fawreddog yn foment o falchder i'r côr ac i Gymru.

"Rydym wedi gweithio'n agos gyda Syr Karl Jenkins dros y blynyddoedd ac wedi cydweithio ag ef ar nifer o achlysuron, felly rwy'n falch iawn y byddwn yn gallu rhannu ein pleser o ganu ei Benedictus o The Armed Man A Mass for Peace gyda chynulleidfa ryngwladol yn y Fatican".

Y tu hwnt i'w perfformiad yn y Fatican, bydd Côr Caerdydd yn parhau â'u cyfnewid diwylliannol ym mhrifddinas yr Eidal gyda chyngerdd cydweithredol ochr yn ochr â'r côr Coro Voxel o Rufain. Bydd y perfformiad hwn, mewn un arall o eglwysi gorau Rhufain, yn tynnu sylw pellach at hyfrydwch cerddoriaeth Cymru.

Dywedodd Bethan Herbert, aelod hirdymor a chadeirydd y côr: "Roedd perfformio yn yr Eidal yn 2024 yn uchafbwynt i lawer ohonom, ond mae cael ein gwahodd i ganu yn y Fatican wedi rhagori ar ein holl ddisgwyliadau. Mae'n anrhydedd go iawn dod â

cherddoriaeth Cymru i leoliad mor gysegredig a hanesyddol a'i rhannu â chynulleidfa yng nghanol Rhufain.”

Ychwanegodd Gwawr Owen “Rydym wedi cael ar awdurdod da fod y Pab ei hun eisoes wedi clywed cerddoriaeth rhai o gyfansoddwyr Cymru, ac fe fydd hyn yn gwneud canu’r caneuon hyd yn oed yn fwy arbennig pan fyddwn yn gwneud hynny yn y Fatican”.

Bydd Côr Caerdydd yn canu yn ystod yr **Offeren ym Masilica San Pedr ddydd Sadwrn Ebrill 18fed am 12.00**. Byddant yn canu gyda Coro Voxel ym **Masilica Sant’Eustachio ddydd Gwener Ebrill 17eg am 19.00**.

Cardiff based choir, Côr Caerdydd, is set to deliver an historic performance at the Vatican in April by performing a repertoire of songs – mostly composed by composers from Wales.

In what is thought to be a first, the choir, will bring a true taste of Wales to Italy by performing songs from four of Wales' best composers right in the heart of the Catholic church.

Following their standout performances at the Carwyn James Festival in Rovigo (northern Italy) and a celebrated service at the Basilica San Antonio in Padua in November 2024, the choir has received the rare honour of being invited to sing during Mass at St Peter's Basilica in Vatican City.

The choir needed approval on its request to showcase Wales' rich contemporary choral heritage within the Vatican's walls and in a significant nod to Welsh culture, the Vatican approved the repertoire featuring the Welsh composers. These are Sir Karl Jenkins, Paul Mealor, Robat Arwyn, and a brand-new and never performed before commission of Agnus Dei by Geraint Owen. The performance will also feature classical pieces from Schubert's Mass in G and from Vivaldi's Gloria.

Under the leadership of Gwawr Owen, the choir has been busy rehearsing for the prestigious event since the beginning of the year. Commenting on the trip, Gwawr said:

"When we received the invitation, it was incredibly important to us to bring the 'Land of Song' to the Vatican. To have our very own contemporary Welsh composers approved for such a prestigious service is a proud moment for the choir and for Wales.

"We have worked closely with Sir Karl Jenkins over the years and collaborated with him on a number of occasions, so I'm delighted we are going to be able to share our pleasures of singing his Benedictus from The Armed Man A Mass for Peace with an international audience in the Vatican".

Beyond their performance at the Vatican, Côr Caerdydd will continue their cultural exchange in the Italian capital with a collaborative concert alongside Rome based choir Coro Voxel. This performance, in another of Rome's finest churches, will further highlight the delights of Welsh music.

Long standing member and chair of the choir Bethan Herbert said: "Performing in Italy in 2024 was a highlight for many of us, but to be invited to sing at the Vatican has exceeded all of our expectations. It's a real honour to bring the music of Wales to such a sacred and historic setting and to share it with an audience in the heart of Rome."

Gwawr Owen added “We have had it on good authority that the Pope himself has already heard the music of some of the Welsh composers which will make singing these songs even more special when do so in the Vatican”.

Côr Caerdydd will be singing during **Mass at St Peter’s Basilica on Saturday April 18th at 12.00**. It will be singing with Coro Voxel at **Basilica Sant’Eustachio on Friday April 17th at 19.00**.